| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor llawn |
| **DYDDIAD** | 6 Hydref 2016 |
| **TEITL** | Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 |
| **PWRPAS** | Hysbysu aelodau'r Cyngor o newidiadau a wnaed i Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyfansoddiad er mwyn gweithredu Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 |
| **ARGYMHELLIAD** | Nodi er gwybodaeth |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro |

1. Daeth y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 ("Deddf 2014") i rym ar 20 Hydref 2014. Nod y ddeddf yw cyflwyno unigolion a sefydliadau gyda rhagor o hyblygrwydd wrth daclo ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae'r ddeddf yn diddymu nifer o hen rymoedd mewn deddfau amrywiol ac yn eu disodli gyda chyfres o rymoedd newydd, mwy syml a hyblyg.

2. Mae Deddf 2014 yn cyflwyno dau rym newydd i awdurdodau lleol sydd yn disodli hen rymoedd a ddefnyddiwyd gan swyddogion. Y grymoedd newydd hynny yw'r grym i gyhoeddi **rhybudd gwarchod y gymuned** a'r grym i gyhoeddi **rhybudd cau**:

    a. Gall y Cyngor gyflwyno rhybudd gwarchod y gymuned ar unigolyn, busnes neu sefydliad sydd yn achosi problemau neu niwsans penodol yn barhaus gan effeithio yn negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned. Mae'r problemau hyn yn gallu cynnwys graffiti, sbwriel a sŵn. Mae hawl apelio. Gall diffyg cydymffurfiaeth â'r rhybudd arwain at erlyniad, cyhoeddi cosb benodedig a sancsiynau eraill.

    b. Mae rhybudd cau yn caniatau'r Cyngor i gau eiddo yn sydyn ac am hyd at 48 awr lle defnyddir yr eiddo, neu lle mae'n debygol y defnyddir yr eiddo, i gyflawni trosedd ac anhrefn. Yn dilyn hynny gellir os oes angen gwneud cais i'r Llys Ynadon am orchymyn cau a all fod mewn grym am hyd at 6 mis. Mae torri naill ai'r rhybudd neu'r gorchymyn cau yn drosedd a all arwain at erlyniad.

3. Ar 26 Gorffennaf 2016 cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd Dyfed Edwards, drwy daflen benderfyniad gyfres o newidiadau i Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyfansoddiad, er mwyn dirprwyo'r grymoedd uchod i'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol. Gwnaethpwyd y newidiadau hyn yn unol â grym yr Arweinydd i addasu'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol, o dan Adran 5.8.3 o'r Cyfansoddiad.

4. Yn unol ag Adran 5.8.3 o'r Cyfansoddiad, gofynnir i mi fel Swyddog Monitro hysbysu'r Cyngor llawn o'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

5. Yn yr amgylchiadau gallaf gadarnhau bod yr Arweinydd wedi diwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion drwy ddirprwyo i'r Pennaeth Oedolion y grym i gyhoeddi rhybudd cau yn unol ag Atodiad 1, i'r Pennaeth Priffyrdd y grym i gyhoeddi rhybudd gwarchod y gymuned yn unol ag Atodiad 2, ac i'r Pennaeth Rheoleiddio y grym i gyhoeddi rhybudd gwarchod y gymuned a rhybudd cau yn unol ag Atodiad 3.

**Iwan G D Evans**

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro**

**6 Hydref 2016**